



Prosiect Mentrau-Micro Cymunedol Wreccsam

Catalydd Mentrau-Micro Cymunedol

Y swydd

Cefndir

Menter gymdeithasol sy'n gweithio ar draws y DU i sicrhau fod pobl sydd angen gofal a chymorth i fyw eu bywydau yn gallu derbyn cymorth mewn ffyrdd, lleoliad ac ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw yw Catalyddion Cymunedol, gyda dewis eang o opsiynau lleol deniadol.

Ers 2007, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid mewn dros 90 o ardaloedd awdurdodau lleol, sy'n awyddus i wella'r amrywiaeth yn y farchnad ac ymestyn opsiynau cymunedol. Rydym yn helpu pobl i ddefnyddio eu talentau i ofalu am, a chefnogi pobl leol drwy sefydlu mentrau bychain, i greu swyddi a chyfleoedd gwirfoddoli.

Y prosiect cyffrous hwn a chyffrous hwn yn canolbwyntio ar ddewis drwy feithrin micro-fentrau a mentrau cymunedol sy'n cynnig cymorth a gofal yn y cartref i bobl hŷn a'r anabl. Rydym yn rhagweld y bydd y gefnogaeth a'r gwasanaethau hyn yn galluogi pobl i fyw eu bywydau fel y mynnent.

Bydd y gwaith yn cysylltu'n gryf â dulliau datblygu cymunedol lleol eraill.

Y swydd

Rydym yn recriwtio Catalydd i gydlynu'r Prosiect Mentrau-Micro Cymunedol newydd yn Wreccsam. Mae'r swydd hon am gyfnod penodol o 1 flwyddyn.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio o fewn y gymuned leol i sefydlu a meithrin micro-fentrau cymunedol bychain. Bydd y rhain yn cynnig gofal a chymorth wedi'u teilwra i bobl leol yn eu cymuned, gan wella'r dewis a'r rheolaeth ar draws Wreccsam.

Swydd-ddisgrifiad

Tymor	1 flwyddyn
Lleoliad:	Wrecsam
Oriau:	37.5 awr yr wythnos
Cyflwg:	£32,960 y flwyddyn

Cyfrifoldebau Allweddol:

1. Arwain y prosiect

- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddeall y ddemograffeg, daearyddiaeth, strwythurau, asedau a'r heriau yn yr ardal
- Ymgynghori â grwpiau budd-ddeiliaid lleol gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddatblygu rhwydweithiau priodol yn Wrecsam
- Integreiddio gweithgarwch gyda mentrau lleol eraill ar lefel strategol a chymunedol
- Gweithio i fodloni'r targedau a ddiffiniwyd yng nghynllun y prosiect a gan y cyllidwr
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gweithrediadau i gynllunio a darparu gweithdai a digwyddiadau

2. Meithrin datblygiad micro-fentrau a mentrau cymunedol

- Gweithio gydag asiantaethau allweddol i nodi ac ymgysylltu â darparwyr cefnogaeth a gwasanaethau cymunedol presennol ac i'r dyfodol.
- Darparu cefnogaeth barhaus i arweinwyr mentrau cymunedol; gan gynnwys: cyswllt wyneb yn wyneb, dros y ffôn, dros e-bost, cyfeirio at wasanaethau, darparu gwybodaeth a chefnogaeth grŵp

3. Perthnasau gwaith effeithiol

- Gweithio gyda'r Rheolwr Gweithrediadau a'r prosiect Newid Grŵp i nodi partneriaid sy'n allweddol i lwyddiant y prosiect
- Deall rôl a chylch gwaith partneriaid i wneud y mwyaf o'r potensial i gydweithio a lleihau'r risg o ddyblygu
- Gweithio i sicrhau effeithlonrwydd parhaus cysylltiadau sefydledig
- Nodi ac ymgysylltu â phartneriaid newydd cytunedig mewn perthynas â datblygu prosiectau

4. Hyrwyddo a Chyfathrebu

- Cynllunio ac ymgymryd â gwaith hyrwyddo i gyfleu safbwynt cadarnhaol o ficro-fentrau a mentrau cymunedol – gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol; cynhyrchu a dosbarthu gwybodaeth ysgrifenedig
- Gweithio gyda gwasanaethau a sefydliadau lleol yn y sectorau cyhoeddus, preifat, cymunedol a gwirfoddol

5. Gweinyddu effeithiol

- Addasu offer gweithredol Catalyddion Cymunedol i'w defnyddio'n lleol
- Cadw cofnodion clir a chywir

- Cynnal systemau ffeilio a sicrhau fod yr holl gofnodion a gwybodaeth yn gyfrinachol.
- Sicrhau fod cronfa ddata gyfrinachol o ficro-fentrau a mentrau cymunedol yn cael ei sefydlu a'i chynnal
- Cynhyrchu a rhannu ystadegau prosiectau yn rheolaidd
- Cyfrannu at y gwaith o werthuso'r prosiect

6. Arferion gwaith

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd:-

- Weithio mewn modd sy'n gyson ag athroniaeth a gwerthoedd Catalyddion Cymunedol
- Gweithio mewn modd sy'n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac yn bodloni safonau arferion gwrth-wahaniaethol
- Gweithredu mewn modd sy'n gyson â chyfrifoldebau cyfreithiol Catalyddion Cymunedol gan gynnwys deddfwriaethau a chanllawiau iechyd a diogelwch.
- Cymryd rhan ymarferol mewn dysgu a hunan-ddatblygu
- Gweithio tuag at wella ansawdd yn barhaus

7. Unrhyw ddyletswyddau eraill

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n addas i raddfa'r swydd yn ôl y gofyn

Manylion Am Yr Unigolyn Catalydd Mentrau-Micro Cymunedol

Menter gymdeithasol sy'n archwilio ffyrdd newydd o feddwl am ofal, iechyd a lles yw Catalyddion Cymunedol. Ein pobl sy'n ein gwneud ni'n sbardun newid cadarnhaol. Mae'n bwysig ein bod yn dod o hyd i unigolyn sy'n meddu ar y wybodaeth a'r profiad cywir. OND, mae'n bwysicach fyth ein bod yn dod o hyd i unigolyn sydd â'r weledigaeth, egni, dychymyg a'r penderfyniad cywir ar gyfer y swydd hon.

1. Meini Prawf Hanfodol

Gofynion	Sut fyddwn yn asesu'r rhain
Rhinweddau ac agwedd bersonol	
Ymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth	Cyfweliad ac ymarfer
Menter, cymhelliant a phenderfyniad i sicrhau fod pethau'n digwydd	Cyfweliad ac ymarfer
Egni a brwdfrydedd	Cyfweliad ac ymarfer
Angerdd am bobl a'r brwdfrydedd i ymgysylltu a chyfathrebu â hwy	Ffurflen gais, cyfweliad ac ymarfer
Sgiliau a galluoedd	
Gallu gweld cyfleoedd a chysylltiadau ar draws sectorau a chymunedau a chysylltu'r rhain gyda'i gilydd	Ffurflen gais ac ymarfer
Gweledigaeth o beth sy'n bosibl a'r creadigrwydd a'r dychymyg sydd eu hangen i gyflawni hynny	Cyfweliad ac ymarfer
Sgiliau cyfathrebu gwych ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys ysgrifennu cofnodion ac adroddiadau a rhoi cyflwyniadau cyhoeddus	Ffurflen gais ac ymarfer
Sgiliau TG a chyfrifiadurol medrus gan gynnwys defnyddio Microsoft Word, y we ac e-bost i ddadansoddi, cyflwyno gwybodaeth a chefnogi arweinwyr mentrau ar-lein	Ffurflen gais
Mae gallu teithio er mwyn bodloni gofynion y swydd	Cyfweliad
Sgiliau a hyder i farchnata a hyrwyddo'r Prosiect Mentrau-Micro Cymunedol	Ffurflen gais

Gofynion	Sut fyddwn yn asesu'r rhain
Gallu gweithio'n annibynnol a bodloni targedau a darparu'r canlyniadau disgwylidig.	Ffurflen gais
Gallu ymgysylltu mewn modd hyderus ac adeiladol gyda phobl ar bob lefel	Cyfweliad
Profiad	
Profiad o weithredu a datblygu yn y gymuned p'un a oedd hynny'n wirfoddol neu am dâl	Ffurflen gais a chyfweliad
Profiad o ddarparu gwasanaethau cyngor neu wybodaeth i aelodau o'r cyhoedd	Ffurflen gais a chyfweliad
Profiad o ddatblygu a rheoli rhaglenni neu wasanaethau arloesol	Ffurflen gais a chyfweliad
Profiad o ddarparu prosiectau/gwasanaethau i fodloni canlyniadau a thargedau tynn	Cyfweliad
Gwybodaeth	
Gwybodaeth am gyd-destun strategol arloesi cymdeithasol a gofal iechyd	Ffurflen gais a chyfweliad
Gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Ffurflen gais a chyfweliad
Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, yn arbennig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Ffurflen gais a chyfweliad

2. Meini Prawf Dymunol

Gofynion	Sut fyddwn yn asesu'r rhain
Cymwysterau	
Cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig mewn iechyd neu ofal cymdeithasol, tai, cyngor neu waith cymunedol.	Ffurflen gais
Profiad	
Profiad o redeg busnes bach, menter neu sefydliad trydydd sector	Ffurflen gais
Gwybodaeth	
Gwybodaeth am fframweithiau deddfwriaethol a rheolaethol mewn perthynas â micro-fentrau cymunedol	Ffurflen gais a chyfweiliad
Gwybodaeth am faterion datblygu cymunedol	Cyfweiliad
Gallu siarad a/neu ysgrifennu yn Gymraeg.	Ffurflen gais

Sylwch:

Dylai ymgeiswyr ddefnyddio eu ffurflen gais i ddangos sut maent yn bodloni'r meini prawf hanfodol *gan ddarparu tystiolaeth glir i gefnogi unrhyw ddatganiadau*. Dylent roi sylw penodol i'r elfennau o'r Manylion am yr Unigolyn a gaiff eu nodi drwy'r ffurflen gais.

Ni fyddwn yn defnyddio'r meini prawf dymunol fel rhan o'r broses o lunio rhestr fer a phenderfynu, ond bydd yn rhoi syniad i ymgeiswyr posibl o'r nodweddion ychwanegol sydd eu hangen i lwyddo yn y swydd hon.